CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

**Cofnodion o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher yr 8fed o Hydref 2025 am 7.30yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.**

Presennol; Cyng. John P Jones, Sion Alun Roberts, Rhys Davies, John P Roberts, Arfon Hughes, Lynne Mcrickett, Berwyn Harding a Huw T Jones (Clerc) ac un aelod o'r cyhoedd.

1. **Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Cyng John P Jones.** Roedd ymddiheuriadau gan Cyng Wyn Lewis, Catrin Jones Johnson ac Idris Jones.
2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr agenda.
3. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a** gynhaliwyd ar y 27ain o Awst 2025 ar gynnig Cyng John P Roberts a'i eilio gan Cyng Rhys Davies.
4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd ymatebion i faterion Priffyrdd a Chefnffyrdd ers y tro diwethaf. Yng nghyswllt torri gor-dyfiant ger Penybont, nodwyd fod y gwaith ar dir sy'n perthyn i Hen dy Camlan (Fire Cat ) yn parhau heb ei wneud, ac roedd angen atgoffa.
Roedd y Cyng Wyn Lewis wedi tynnu llun fidio o'r manhole yn gor-lifo ar riw Landrin ar adeg o law trwm, ac roedd y Clerc wedi ei ddanfon ymlaen. Diolchwyd i Wyn am hyn.

b) **Dyfodol Eglwys Llanymawddwy –** nodwyd nad oedd unrhyw ddatblygiadau.

c) **Pwyllgor yr Hen Fynwent** – roedd y Clerc wedi cysylltu gyda Nansi Thirsk ar ddau achlysur, ond nid oedd ymateb i law. Wrth drafod y pwnc yma, cyfeiriwyd at y cymorth y gellir ei gael gan Bryn Hughes o Gyngor Gwynedd a oedd yn ymdrin a materion fel hyn, a phenderfynwyd ei wahodd atom I gael ei farn a'i gyngor. Byddai'r Clerc yn trefnu a gadael I bawb o'r Cynghorwyr wybod. Penderfynwyd felly gohirio unrhyw benderfyniad ar y pwnc yma hyd nes cael cyfarfod gyda Bryn, a chlywed gan Nansi Thirsk.
Yng nghyswllt beddi milwyr yn yr hen fynwent, nodwyd ymateb diweddaraf gan Susan Evans o Aberytwyth ynglyn a hyn, oedd yn diolch am y gwaith yno, ond roedd y Clerc wedi pwysleisio nad oedd hyn yn gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned.

d) **Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas** - Penderfynwyd gadael hyn unwaith eto tan y cyfarfod nesaf nes byddai Cyng Wyn Lewis yn bresennol.

e) **Torri gwair mynwentydd** – yn dilyn y trafod y tro diwethaf, diolchwyd yn fawr iawn i Gareth Wyn Davies a oedd wedi gwneud gwaith hynod daclus yn y 3 mynwent.

Roedd y Clerc wedi paratoi hysbyseb mewn drafft ar gyfer y gwaith am 2026, a chafodd ei dosbarthu i'r Cynghorwyr. Cytunwyd ar y cynnwys, a phenderfynwyd y dylid ei roi yn y Blewyn Glas a Llygad y Dydd.

f) **Safle y gofgolofn yn Minllyn** – nodwyd nad oedd gohebiaeth pellach gan Stuart England.

g) **Cynllun 'Gwynedd Ni'** – cronfa Cynghorau tref/Cymuned - ystyriwyd y diweddaraf yn dilyn cyfarfod arbennig gan y Cyngor Cymuned i drafod hyn a gynhaliwyd ar y 15fed o Fedi.

Yn y cyfarfod ar y 15fed Medi, roedd y Cyng Arfon Hughes wedi dweud nad oedd wedi derbyn gwahoddiad i'r cyfarfod gan y Clerc. Dywedodd y Clerc fod hyn yn anghywir a chamarweiniol, (fel yr oedd Arfon wedi cydnabod wedyn) ac y dylai hyn gael ei gofnodi.

Mynegodd y Clerc ei siom am y diffyg parch a chwrteisi a ddangoswyd tuag ato gan y Cyng Arfon Hughes yng nghyswllt gwaith yr hen fynwent a gohebiaeth cyn cyfarfod 15fed Medi, yn arbennig ei e-bost o'r 5ed o Fedi (9.39am) Gofynodd am sicrwydd pendant na fyddai hyn yn digwydd eto. Dywedodd ei fod bellach yn ystyried dyfodol ei gyflogaeth gyda'r Cyngor oherwydd fod hyn wedi digwydd o'r blaen, ac roedd mor siomedig fod hyn yn parhau, a bod hyn mor anheg

Mynegwyd geiriau cryf iawn gan y Cadeirydd John P Jones am y sefyllfa, a dywedodd fod ymddygiad Cyng Arfon Hughes yn gwbwl annerbyniol. Dywedodd wrth y Cynghorydd Arfon Hughes fod rhaid dilyn trefn a rheolau cydnabyddedig. Roedd Arfon yn amlwg wedi mynd ymlaen ar ei liwt ei hun i weithredu ar rai materion yn yr hen fynwent heb ymgynghori gyda'r Clerc, y Cadeirydd na'r Cynghorwyr eraill.

Rhoddwyd fanylion hefyd e-bost Dylan ag Elen (Minllyn) 2.09.25 a oedd wedi ei gylchredeg i'r Cynghorwyr yn gofyn am eu sylwadau. Nid oedd Arfon wedi ymateb, ond roedd 6 Cynghorydd wedi rhoi eu barn. Aeth y Cadeirydd a'r Clerc i drafod gyda Elen a Dylan ar Nos Iau 4.09.25, a dywedwyd y noson honno fod Arfon wedi trefnu cyfarfod ar gyfer y Nos Lun ganlynol, heb yn wybod i'r Cadeirydd na'r Clerc. Roedd hyn yn tanseilio trefn y Cyngor a'r Clerc, gan fod rhaid gweithredu drwy un llais. Roedd yr ymateb wedyn i hyn gan Arfon [redacted] yn camddehongli y sefyllfa, ac yn cyfarwyddo y Clerc ei hun rhwng cyfarfodyd y Cyngor. Roedd cael trefn mor bwysig gan ein bod yn ymdrin ag arian cyhoeddus.

John P Jones

Roedd hyn wedi digwydd sawl tro o'r blaen yn y blynyddoedd diwethaf, a darllenwyd bargraffau cofnodion 14.06.21 pryd roedd gweddill y Cynghorwyr wedi dweud fod y Clerc yn cael ei boenydio, oedd yn arwain at straen, ac mai 'digon oedd digon'. Yr adeg honno, dywedwyd fod Arfon Hughes yn ceisio disodli y Clerc, a chreu cynnwrf yn fwriadol.

Atgoffwyd Cyng Arfon Hughes hefyd ei fod wedi cyfaddef ei hun am ei ymddygiad wrth y Clerc a'r Cyng Catrin Jones yn dilyn cyfarfod o'r Cyngor yn Gorffennaf 2023, ac wedi ymddiheuro am ei ymddygiad adeg honno.

Ymatebodd Arfon drwy ddweud ei fod yn ceisio gwneud ei orau dros yr etholwyr.

Aethpwyd ymlaen gyda'r drafodaeth, ac roedd y cais am ad-daliad y grant i'r byrddau a'r meinciau i law, sef £3595. Penderfynwyd ymhle i roi y meinciau/byrddau, gan gynnwys gofyn i'r ysgol. Byddai un bwrdd picnic ar Dolybont, un yn y lle chwarae yn y Plas, a mainc ym mynwent Mallwyd a Llanymawddwy, Ger Neuadd Aberangell, ac ar lwybr Tanybwlch. Addawodd Cyng Sion Alun Roberts a Cyng Rhys Davies helpu, hefyd Cyng Berwyn Harding ar gyfer Aberangell.

Roedd rhaid cael eglurhad ynglyn a prynu blodau i'r planters, gan na fyddai hyn yn ymddangos yn bosib cyn diwedd y flwyddyn.

Diolchwyd i'r Cyng Idris Jones am drwsio y meinciau presennol.

Yng nghyswllt y byrddau gwybodaeth o enwau creigiau Cywarch ayyb, addawodd Cyng Arfon Hughes fod yng ngofal hyn, a threfnu bod hyn wedi ei wneud cyn cyfarfod

Rhagfyr o'r Cyngor. Atgoffwyd fod Hedd Pugh wedi gofyn am gael gweld yr enwau ymlaenllaw cyn rhoi caniatad gosod y panel yn y maes parcio yng Nghywarch.

h) **Cwynion am sefyllfa carafannau Min y Goedwig, Aberangell –** adroddwyd y diweddaraf, a bod angen enw o'r pentref oedd wedi cwyno am y sefyllfa. Cadarnhwyd fod Beca Pugh, Bodawel, Aberangell yn fodlon i'w henw fynd ymlaen. Byddai'r Clerc yn ymdrin a hyn ymhellach.

i) **Gohebiaeth ynglyn a tario y ffordd i Ty'n y Braich,** a cais i'r Cyngor Cymuned gywirio'r map sydd gan Gyngor Gwynedd. Nodwyd fod map i law, ond nad oedd yn fap cywir, ac felly roedd rhaid gohirio tan cyfarfod nesaf.

**5. Materion Cynllunio**

Nid oedd unrhyw geisiadau i law.

**6.Materion Cyllid.**

a) **Nodwyd balansau y cyfrifon,** (8.10.25), sef Cyfri Cyfredol £13,295.46, Cyfri Claddedigaeth £602.79 Cyfri Cadw £796.56. Roedd £3595 i law gan Gyngor Gwynedd yn dilyn rhan daliad y grant 'Gwynedd Ni'.

   Aethpwyd drwy cyllideb ddrafft (dosbarthwyd i bawb o'r Cynghorwyr) ar gyfer gwariant /incwm y Cyngor Cymuned am 2026-27, oherwydd roedd angen hyn ar gyfer penderfyniad ar y praesept yn y cyfarfod nesaf. Aethpwyd drwy pob pennawd yn fanwl, a byddai'r Clerc yn ail-gyflwyno hyn yn y cyfarfod nesaf.

   Cadarnhodd bawb o'r Cynghorwyr oedd yn bresennol nad oeddynt am hawlio unrhyw daliadau am y flwyddyn 2026-27.

b) **Anfonebau i'w talu** - ar gynnig Cyng John P Roberts a'i eilio gan Cyng Sion Alun Roberts cytunwyd i'r canlynol, ac hefyd trosglwyddo £2000 i'r Cyfri Claddu.

   - Gareth W Davies – torri gwair mynwentydd Mallwyd, Dinas a Llanymawddwy (trydydd dro) £750
   - Cydnabyddiaeth ail chwarter y Clerc £485.04 ynghyd ag HMRC £121.20
   - Anfoneb J A Owen - agor bedd Llanymawddwy 2.08.25 - £750
   - HG Web Designs – diweddaru a chynnal a chadw'r wefan - £300

c ) **Ceisiadau am arian** – roedd un cais i law, sef gan Theatr Bara Caws. Penderfynwyd gadael hyn am y tro, ac yn y cyfamser, bod y Clerc yn gofyn iddynt a fyddent yn fodlon ystyried dod i Ddinas Mawddwy gyda un o'u cynhyrchiadau.

**7.Gohebiaeth.**

**a)** Nodwyd **Sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru** a byddai y Clerc yn eu cylchredeg. Nodwyd hefyd gyfarfod Blynyddol ac yr un chwarterol gan Un Llais Cymru Meirionnydd ar Nos Fawrth 21ain Hydref. Gofynnwyd a oedd posib cael cofnodion y cyfarfodydd yma i'w cylchredeg.

**b)** **Cod Ymddygiad a chanllawiau'r Ombwdsman**– adroddodd y Clerc ei fod wedi eu cylchredeg i'r Cynghorwyr i gyd ar y 23.09.25. Hefyd roedd datganiad ysgrifenedig Jane Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a

Thai wedi ei ddosbarthu. Roedd hwn yn ddiwedariad ar gamau gweithredu i gefnogi rôl, llywodraethiant ac atebolrwydd y sector cynghorau Cymuned a thref.

c) **Swyddfa'r Post, Dinas Mawddwy** – adroddwyd am gyfarfod arbennig gan y Cyngor Cymuned ar 3.10.25 yn dilyn y newyddion fod y Swyddfa Bost i gau ar yr 28ain o Hydref . Pwrpas y cyfarfod oedd cael gwybod gan y cyhoedd faint wir o ddefnydd oedd i'r Swyddfa bost yn y neuadd, a beth oedd orau i'r Cyngor Cymuned ei wneud.

Penderfynwyd y dylid gofyn a fyddai modd cael fan i ymweld a Dinas Mawddwy yn wythnosol er mwyn parhau y gwasanaeth i'r rhai oedd ei angen. Hefyd roedd angen rhoi cwyn paham nad oedd y Cyngor Cymuned wedi cael ymgynghoriad, a phaham nad oedd y datganiadau yn ddwyieithog.

**8. Unrhyw Fater arall.**

a) Trafodwyd drefniadau Sul y Cofio eto eleni, a phenderfynwyd prynu torch fel arfer, a fyddai yn cael ei chyflwyno gan Cyng John P Jones fel Cadeirydd y Cyngor.

b) Penderfynwyd trefnu cael coeden Nadolig o flaen y Neuadd eto eleni, a byddai'r Clerc yn gofyn i Geraint Gwanas yn ol yr arfer. Diolchwyd yn fawr iawn iddo. Byddai'r Clerc yn danfon e-bost i bawb i ofyn am help i'w gosod.

c) Roedd diwrnod agored wedi bod gan 'Plannwch y Plas' gyda nifer dda wedi bod yno. Gofynnwyd i'r Clerc yrru gair o ddiolch am ddigwyddiad llwyddiannus.

d) Roedd draens wedi blocio ger mynedfa Coedcae , Llanymawddwy.

e) Roedd dwr ar y ffordd ar y rhiw heibio Min y Goedwig, Aberangell.

f) Roedd angen glanhau y ffordd uwchlaw y fynwent yn Dinas, ger mynedfa yr A470, a gofyn i 'Tim Tacluso Cyngor Gwynedd' ymdrin a hyn.

g) Roedd dwr yn gollwng yn y toiledau dynion yn y Dinas.

h) Nodwyd fod angen torri gwair ar gomin Dolybont, y dywedodd Cyng John P Jones y byddai yn ymdrin a hyn.

i) Roedd canghennau yn disgyn o'r coed ochr ffordd ger Dolybont, ac angen sylw Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd.

j) Roedd pryder am goed pîn o flaen y capel yn y Dinas sydd ar dir comin. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd am help efo hyn, ac addawodd y Cyng John P Roberts gynorthwyo hefyd.

k) Roedd pryder am or-dyfiant mewn sawl man yn yr ardal, a'r perygl o dân, a gofynnwyd beth oedd yn bosib ei wneud i wella'r sefyllfa i'r dyfodol

l) Roedd y ffens ar ochr Pont Dolybont angen sylw.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD ABERANGELL NOS FERCHER 10fed Rhagfyr 2025 , 7.30 y.h.**

John P Jones 10/12/25